**PWYLLGOR ARCHWILIO 13-01-11**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd am y cyfarfod)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, Tom Ellis, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, R.L. Jones, Ioan Thomas

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio Cynorthwyol), Kathryn Roberts (Arweinydd Archwilio – Datblygu), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Charles W. Jones, Dewi Owen, John P. Roberts a Gethin Williams.

**1. CADEIRYDD**

Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor **penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gwilym Williams yn Gadeirydd am y cyfarfod.**

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2010, fel rhai cywir.

**3. YMWYBYDDIAETH O'R POLISI CANU'R GLOCH**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn crynhoi canlyniadau arolwg o ymwybyddiaeth staff a'u hagwedd at Bolisi Canu'r Gloch y Cyngor.

Lluniwyd y polisi gyda'r bwriad o annog gweithwyr i ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer er mwyn gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd.

Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol yn fewnol yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau'n allanol. Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor, megis gweithwyr asiantaeth neu adeiladwyr, cyflenwyr a'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor ar eu heiddo eu hunain, megis cartrefi gofal. Gosodwyd y fframwaith cyfreithiol i warchod unigolion sy'n "canu'r gloch" yn Neddf Datguddiad Diddordeb Cyhoeddus ac fe'i gydnabyddir fel meincnod ar gyfer "canu'r gloch" er lles diddordeb cyhoeddus. Daeth y ddeddf i rym yng Ngorffennaf 1999. Nododd bod gweithwyr sy'n rhannu pryderon yn ddidwyll ynghylch achosion o gamymarfer wedi eu hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998.

Nododd y swyddog mai diben yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff y Cyngor am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor fel rhan o adolygiad ehangach o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r

Cyngor fyddai'n bwydo i mewn i adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Byddai'r archwiliad hefyd yn canfod barn cyffredinol gweithwyr y Cyngor tuag at y polisi a'r trefniadau canu'r gloch. Yn ystod yr archwiliad, adolygwyd y trefniadau sy'n eu lle i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion rheolaethol canlynol –
a) Bod trefniadau priodol i sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn ymwybodol o'r polisi Canu'r Gloch.
b) Bod gweithwyr y Cyngor yn barod i ddefnyddio'r polisi os yw'r angen yn codi.

Fel rhan o'r archwiliad, dyluniwyd holiadur ac anfonwyd linc iddo drwy e-bost i holl weithwyr swyddfa o fewn y Cyngor er mwyn darganfod pa mor gyfarwydd ydynt â'r polisi. Gofynnwyd yn yr holiadur pa mor debygol fyddai'r gweithwyr o ddefnyddio'r polisi petai amgylchiadau perthnasol yn codi, ac unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglyn â'i ddefnyddio. Rhoddodd fanylion am y nifer a ymatebodd i'r holiadur fesul Adran/Gwasanaeth.

Hysbysodd y swyddog y gwnaed holiadur cyffelyb yn 2003 fel rhan o archwiliad mewnol "Polisi Canu'r Gloch" a gwelwyd yr adeg hynny mai dim ond 30% allan o'r sampl o 200 aelod staff a ymholwyd bryd hynny oedd yn ymwybodol bod gan y Cyngor bolisi o'r fath. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae canlyniadau holiadur yr archwiliad hwn wedi darganfod bod y canran yma bellach yn 79.6%. Ymddengys felly bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo'r polisi ers 2003.

Nododd yr Uwch Reolwr y cynhaliwyd ymgyrch gynhwysfawr yn 2009 i godi ymwybyddiaeth o'r polisi drwy rannu cardiau cyswllt canu'r gloch. Golygai hyn bod pob un o weithwyr y Cyngor i fod i dderbyn cerdyn, maint cerdyn banc, sy'n rhestru rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post "Canu'r Gloch", er mwyn ysgogi unrhyw un i "ganu'r gloch" pe cyfyd yr angen. Disgwylir bod y cerdyn wedi ei gynnwys fel rhan o becyn anwytho i weithwyr newydd sy'n ymuno â'r Cyngor. Gofynnwyd yn yr holiadur yn uniongyrchol i'r gweithwyr os ydynt wedi derbyn y cerdyn, ac ymddengys mai dim ond 25.5% oedd wedi derbyn un.

Gofynnwyd hefyd yn yr holiadur i weithwyr y Cyngor roddi eu barn ar y trefniadau cyfredol o ganu'r gloch drwy roddi sgôr rhwng 1 a 5 iddo (1 yn wan a 5 yn ardderchog). Cyfartaledd y sgôr ar draws prif swyddfeydd y Cyngor oedd 2.9 allan o 5. Ymddengys bod y rhan helaeth o weithwyr nad oedd yn ymwybodol o'r polisi wedi rhoddi sgôr isel i adlewyrchu'r ffaith. Wrth ddadansoddi'r sylwadau, gwelwyd bod diffyg ffydd yng nghyfrinachedd y broses canu'r gloch yn parhau i atal nifer o weithwyr rhag gwneud hynny petai'r angen yn codi. Er hyn, nododd yr Uwch Reolwr y mynegodd 86.9% o'r gweithwyr y byddent yn barod i ganu'r gloch yn y dyfodol petai'r amgylchiadau'n codi.

Nododd aelod bod y ganran o weithwyr yn yr Adran Darparu a Hamdden a dderbyniodd cerdyn canu'r gloch yn isel ac y dylid ailedrych ar y sefyllfa. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod llai na 10% o weithwyr yr adran honno a ymatebodd i'r holiadur yn datgan iddynt dderbyn cerdyn. 'Roedd staff yr adran a dderbyniodd yr holiadur yn cynnwys staff swyddfa a rheolwyr y canolfannau hamdden.

Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod rhai gweithwyr yn ofnus i gyflwyno cwynion a gofynnodd a oes pwyntiau cyswllt yn y swyddfa lle y gallai'r gweithwyr

gysylltu. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai'r pwynt cyswllt cychwynnol disgwyliedig, lle'n bosibl, fyddai'r rheolwyr perthnasol yn y gwahanol adrannau ond bod modd adrodd i Archwilio Mewnol pe na byddai hynny'n ddymunol..

Nododd aelod arall nad oes gan rhai o'r gweithwyr ffydd yng nghyfrinachedd y broses canu'r gloch. Cyfeiriodd at honiadau o fwlio ymysg rhai gweithwyr gyda'r canlyniad bod rhai yn dioddef ac adref yn sâl oherwydd hynny. Nododd hefyd bod rhai o'r gweithwyr yn anghyfforddus i siarad gyda'r Rheolwr Llinell neu Uwch Swyddog ac awgrymodd y dylid ystyried sefydlu system o gydweithio gydag chyrff allanol, megis cwmniau cyfreithwyr lle y gallai'r gweithwyr drafod eu pryderon gyda hwy. Parthed yr honiadau o fwlio, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod gan y Cyngor bolisi bwlio ar wahân i ymdrin a hynny ac nad y Polisi Canu'r Gloch oedd y drefn briodol i gwyno am fwlio ond iddo gydnabod y gallai bwlio ddigwydd fel canlyniad i ganu'r gloch. Yn yr achosion hyn mae Deddf Datguddiad Diddordeb Cyhoeddus yn cynnig gwarchodaeth cyfreithiol. Nododd hefyd y dylid ceisio hybu ffydd a hyder ymysg staff am y trefniadau mewnol, er cael gwell perthynas ac fel nad ydynt yn teimlo bod rhaid iddynt fynd yn allanol er mwyn i bethau wella.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr ymgynghorwyd â staff y Cyngor ar y polisi canu'r gloch. 'Roedd yr aelod o'r farn hefyd y dylid cymryd camau i ailddosbarthu'r cardiau.

Gofynnodd aelod os yw ysgolion gyda pholisi canu'r gloch. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod ysgolion gyda pholisi canu'r gloch eu hunain.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod 80% o'r gweithwyr erbyn hyn yn ymwybodol o'r polisi canu'r gloch ac 'roedd y ffigur hwn yn eithaf calonogol. 'Roedd yn gefnogol i'r syniad o ailddosbarthu'r cardiau. Mewn perthynas â dosbarthu cardiau yn yr ysgolion 'roedd o'r farn y dylid adolygu'r drefn yn yr ysgolion yn hytrach nag anfon y cardiau iddynt. O ran cydweithio gyda chyrff allanol ac yn enwedig cwmniau cyfreithwyr, rhagwelai gost i'r Cyngor ynghlwm â hwn ond byddai'n croesawu rhoddi ystyriaeth i gydweithio gyda chynghorau eraill ar draws Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cefnogi'r argymhellion isod a wnaed gan Archwilio Mewnol, i'w gweithredu gan yr Adran Adnoddau Dynol –**
**i) Yn ailddosbarthu'r cardiau cyswllt canu'r gloch.**
**ii) Dylid codi pryderon yr amlinellwyd gan y gweithwyr yng nghyfarfodydd y Coleg Uwch Reolwyr a'r Fforwm Rheolwyr Canol.**
**iii) Ymdrechu i geisio lleihau pryderon staff ynglyn â chanu'r gloch a cheisio ennyn eu hyder yn y trefniadau.**
**b) Bod pob aelod newydd o staff y Cyngor i dderbyn copi o'r canllawiau.**
**c) Rhoddi ystyriaeth i gydweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru parthed trafod pryderon staff a.y.**
**ch) Ymgymryd â gwaith pellach gyda'r Adran Darparu a Hamdden er ceisio codi ymwybyddiaeth staff yr adran o'r polisi.**

## 4. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2010**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Tachwedd 2010. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 25 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 2 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 3 archwiliad dilyniant.
- 4 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 16 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 22 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

'Roedd crynodebau gweithredol y 25 adroddiad o'r cynllun gweithredol wedi eu cynnwys fel atodiadau unigol. Rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn eu trefn ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Ôl-ddyledion Arian Cinio Ysgolion Cynradd**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cyflwynir canlyniad y gwaith dilyniant i'r pwyllgor nesaf.

**Cyfundrefn a Phrosesau Cyfalaf**

Gofynnodd aelod am eglurhad pellach parthed y cardiau record y cyfeirir atynt yn y prif ddarganfyddiadau. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y cardiau record yn drefn a ddefnyddir gan adrannau pan wneir bidiau am arian cyfalaf i ddatblygu unrhyw system. Bydd yn ofynnol iddynt lenwi cardiau record a fyddai'n nodi faint o arian a dderbynnir, y proffil gwariant, trefn y prosiect a.y. Nododd mai'r bwriad yw cael rheolaeth ar wariant cyfalaf ar rhai prosiectau o fewn y Cyngor.

Gofynnodd aelod arall os yw'r Rheolwyr Cyfrif Perfformiad sy'n ymdrin â'r cardiau record gyda'r cymwysterau perthnasol i redeg y cynllun. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yna Reolwyr Prosiect ar wahân i'r Rheolwyr Cyfrif Perfformiad. Disgwylir i holl reolwyr y Cyngor dderbyn cymhwyster Prince 2 fel rhan o raglen hyfforddi'r Cyngor.

**System Rheolaeth Gofal Cartref**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Darparu a Hamdden yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Canolfannau Hamdden Glan Wnion, Glaslyn a Plas Silyn**

Mewn perthynas i gwestiwn gan aelod parthed yr archwiliadau ar y canolfannau uchod, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad oes swyddogion o'r gwasanaeth hamdden yn bresennol yn y cyfarfod heddiw i

ateb cwestiynau ar yr archwiliadau oherwydd bwriedir cyflwyno ychwaneg o adroddiadau cyffelyb i'r cyfarfod nesaf a gellir eu gwahodd i'r cyfarfod hwnnw. Bydd yr Uwch Reolwr yn cyfarfod y Pennaeth Darparu a Hamdden a'r Uwch Swyddog Hamdden yr wythnos nesaf i drafod y mater.

**Yr Argraffdy**

Tynnwyd sylw gan aelod at brif ddarganfyddiadau'r archwiliad sy'n cyfeirio at y ffaith y darganfuwyd bod oddeutu gwerth £368,000 o waith argraffu'n cael ei roddi i gwmniau allanol yn flynyddol. Gofynnodd oes oedd hynny tu allan i Reolau Gweithrefn Ariannol y Cyngor. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad dyna'r canfyddiad y bwriedir ei roddi uchod a bod y gwaith wedi ei osod yn unol â phroses tendro'r Cyngor.

Gofynnodd yr aelod ymhellach, gan bod dyfodol yr uned hon dan ystyriaeth, y byddai'n fanteisiol i unrhyw adran sydd angen gwaith wedi ei argraffu ofyn i'r uned am bris yn hytrach na mynd at gwmniau allanol. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod angen yn y gorffennol i rhai agweddau o'r gwaith gael ei wneud gan gwmniau allanol oherwydd bod rhai elfennau technegol na allai'r argraffdy ei ddarparu e.e. biliau treth Cyngor, ond erbyn hyn deellir bod y ddarpariaeth hon ar gael yn yr argraffdy.

**Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru – Risgiau Newid Hinsawdd**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi i 30 Tachwedd 2010 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2010/11.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 2 Ionawr 2011 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 25 |
| Crewyd papurau gwaith | 5 |
| Gwaith maes ar y gweill | 13 |
| Adroddiad Drafft | 6 |
| Adroddiad Terfynol | 57 |
| **Cyfanswm** | **106** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2010/11 yw i gael 85% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei

rhyddhau erbyn 31 Mawrth 2011. Rhoddodd fanylion am broffil y dangosydd fesul chwarter. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 3 yn 53.8% ac allan o'r 106 archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2010/11 'roedd 57 wedi eu rhyddhau'n derfynol erbyn diwedd y chwarter. Mae'r perfformiad felly'n gyson â'r proffil a osodwyd.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, rhoddodd y swyddog fanylion am yr addasiadau hynny i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2010/11.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.05pm